

Hwyl yr haf am ddim yng Ngwyl gerddoriaeth Y Rhyl

Bydd Heather Small – prif gantores M People – yn perfformio mewn gwyl am ddim yn Y Rhyl yr haf hwn.

Bydd Cyngor Sir Ddinbych, gyda chefnogaeth Cyngor Tref Y Rhyl, yn trefnu'r digwyddiad, sydd hefyd yn cynnwys Showaddywaddy a Doctor and The Medics, yn Arena Digwyddiadau'r Rhyl ddydd Sul, 12 Awst o hanner dydd tan 6pm.

Heather Small oedd prif gantores M People, oedd yn enwog am nifer o ganeuon llwyddiannus yn y 90au cynnar yn cynnwys One Night in Heaven, Moving on Up a Serach for the Hero.

Rhyddhaodd ei halbwm unigol cyntaf, Proud yn 2000, ac yn 2008 fe ymddangosodd ar raglen Strictly Come Dancing y BBC, gan orffen yn y 9fed safle.

Dywedodd y Cyngorydd Bobby Feeley, Aelod Arweiniol Lles ac Annibyniaeth Sir Ddinbych: “Rwy'n falch iawn o groesawu gwesteion gwych i Wyl Arena Digwyddiadau'r Rhyl.

“Mae digwyddiadau fel hyn yn helpu'r gymuned ddod at ei gilydd a dathlu, sy'n rhan o waith y Cyngor i gefnogi lles a chydlyniant cymunedol, yn ogystal â denu ymwelwyr i'n sir a chynyddu ffyniant economaidd.

“Bydd hwn yn ddigwyddiad gwych i Sir Ddinbych ac anogaf i breswylwyr ac ymwelwyr ddod i fwynhau'r awyrgylch cyfeillgar i deuluoedd ar y diwrnod.”

Dywedodd y Cyngorydd Win Mullen James, Maer Y Rhyl: “Bydd Y Rhyl unwaith eto, yn taro tant gyda'i digwyddiad gwyl yr haf. Mae'r ffaith y gallwn ddenu pobl fel Heather Small yn dystiolaeth o enw da cynyddol y dref wrth drefnu digwyddiadau gwych.

“Mae Cyngor Tref Y Rhyl yn falch o gefnogi'r strafagansa gerddoriaeth, ynghyd â'r sioe awyr a'n digwyddiadau cymunedol hefyd. Edrychwn ymlaen at haf yn llawn adloniant gwych.”

Mae Doctor and the Medics, a berfformiodd yn yr Wyl y llynedd, yn enwog am ganu'r gân Spirit in the Sky gan Norman Greenbaum, cân aeth i Rif 1 yn y siartiau ym 1986, a chafodd Showaddywaddy nifer o ganeuon yn y Deg Uchaf yn y 1970au yn cynnwys Under the Moon of Love, Three Steps of Heaven ac You Got What It Takes.

Dywedodd Clive Jackson, o Doctor & The Medics: “Mae gwyliau yn golygu lot i mi gan eu bod nhw'n dod a phobl a chymunedau ynghyd i ddathlu a mwynhau cerddoriaeth. Rydym ni'n edrych ymlaen i ddod yn ôl i'r Rhyl i berfformio. Byddwn ni'n chwarae set gyfan o ganeuon yr 80au y bydd pawb yn eu hadnabod, i gyd wedi cael triniaeth gan y Medics.”

Mae perfformwyr eraill yn cynnwys cantores deyrnged Dusty Springfield, Maxine Mazumber a band soul a ffync Yubaba.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Chanolfan Wybodaeth Twristiaeth Rhyl ar 01745 355068 neu Swyddfa Docynnau'r Pafiliwn ar 01745 330000.